OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3159

## Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Cymru) 2002

**Dadansoddiad gan Gemegydd y Llywodraeth**

**9.**—(1) Os bydd yn credu ei bod yn briodol at ddibenion yr achos, gall y llys y mae unrhyw achos yn cael ei ddwyn ger ei fron o dan y Rheoliadau hyn beri bod unrhyw gynnyrch—

(a) sy'n destun yr achos, a

(b) y gellir ei ddadansoddi, ei archwilio neu ei brofi ymhellach, os yw eisoes wedi'i ddadansoddi, ei archwilio neu ei brofi,

yn cael ei anfon at Gemegydd y Llywodraeth, y mae'n rhaid iddo gynnal unrhyw ddadansoddiad, archwiliad neu brawf sy'n briodol a throsglwyddo i'r llys dystysgrif o'r canlyniad; a rhaid i gostau'r dadansoddiad, yr archwiliad neu'r prawf gael eu talu gan yr erlynydd neu'r person a gyhuddwyd, yn unol â gorchymyn y llys.

(2) Pan fydd apêl yn cael ei dwyn, os na fydd unrhyw gamau wedi'u cymryd o dan baragraff (1) uchod, bydd darpariaethau'r paragraff hwnnw yn gymwys hefyd mewn perthynas â'r llys lle mae'r apêl yn cael ei gwrando.

(3) Rhaid i unrhyw dystysgrif o ganlyniadau dadansoddiad, archwiliad neu brawf a drosglwyddir gan Gemegydd y Llywodraeth o dan y rheoliad hwn gael ei llofnodi gan neu ar ran Cemegydd y Llywodraeth, ond gall y dadansoddiad, yr archwiliad neu'r prawf gael ei gynnal gan unrhyw berson o dan gyfarwyddyd y person y llofnodwyd y dystysgrif ganddo; a bydd unrhyw dystysgrif a drosglwyddir felly gan Gemegydd y Llywodraeth yn dystiolaeth o'r ffeithiau sydd wedi'u datgan ynddi oni bai bod unrhyw barti i'r achos yn ei gwneud yn ofynnol i'r person y cafodd ei llofnodi ganddo gael ei alw fel tyst.